Manifffesto
Sustrans Cymru 2021

# Cymru Yfory, i Bawb



YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT




# Rhagair

Ni fu gweledigaeth Sustrans Cymru ar gyfer Cymru Yfory erioed mor berthnasol. Dychmygwch gymdeithas lle gall pawb gerdded neu feicio yn eu cymdogaethau. Mae ysgolion, siopau a gweithleoedd o fewn cyrraedd yn hawdd, ac mae ein trefi yn hygyrch, yn wyrdd ac yn fywiog.



**Christine Boston**
Cyfarwyddwr Sustrans Cymru

Mae cymunedau ac aneddiadau wedi'u cysylltu gan lwybrau cerdded a beicio oddi ar y ffordd o safon, ac mae trafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch, yn ddibynadwy, ac yn fforddiadwy i bawb.

Pan darodd pandemig Covid-19 a Chymru dan gyfyngiadau symud, gofynnwyd inni aros gartref, osgoi trafnidiaeth gyhoeddus a gwneud siwrneiau hanfodol yn unig. Amlygodd hyn mor bwysig yw cysylltiadau da yn ein cymunedau ac mor ddibynnol yr ydym ar fynediad hawdd i siopau a gwasanaethau hanfodol – pethau roedden ni'n eu cymryd yn ganiataol o'r blaen.

Diflannodd ceir oddi ar ein ffyrdd dros nos a phan roedd modd gwneud, roedd pobl yn cerdded a beicio ar gyfer siwrneiau byr. Cyflwynodd awdurdodau ledled Cymru lonydd beicio gwarchodedig i greu lle diogel i'r rheini a oedd am deithio ar feic a phan roedd hynny'n bosibl, ehangwyd palmentydd i sicrhau mwy o le i gerddwyr. Roedd mannau gwyrdd yn cael eu gwerthfawrogi o'r newydd fel rhywbeth hanfodol i iechyd a lles pobl, a chydnabuwyd fod yr amser a dreulir ym myd natur yn hybu imiwnedd ac yn gwella iechyd meddwl.

Fodd bynnag, er inni weld llawer o bobl yn addasu eu patrymau byw, gweithio a theithio mewn ffyrdd na allem fod wedi'u dychmygu o'r blaen, cafodd yr argyfwng hwn effaith anghymesur ar lawer o bobl eraill. Daw hyn yng nghyd-destun Cymru sydd eisoes yn wynebu llu o heriau eraill – yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol, lefelau cynyddol o dlodi ac iechyd gwael. Yn aml, mae'r materion hyn yn cael yr effaith fwyaf ar y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Rydym am weld byd lle mae pobl wedi'u cysylltu trwy drafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol, a lle na fydd bod heb gar yn effeithio ar eich gallu i gael eich cynnwys mewn cymdeithas.

Dyma pam rydyn ni'n galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gynnig arweinyddiaeth uchelgeisiol i sicrhau adferiad cynaliadwy sy'n deg i bawb yng Nghymru. Mae hwn yn gyfle unigryw i ganolbwyntio ar wasanaethau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n deg i bob defnyddiwr, gan greu etifeddiaeth o safon fyd-eang ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a chyflawni Cymru Yfory, i Bawb.



# Crynodeb

**Gofyniad 1:** Neilltuo o leiaf 10% o gyfanswm y gyllideb drafnidiaeth ar gyfer teithio llesol, gan gynnwys darpariaeth i awdurdodau lleol gael eu harfogi i gyflawni'r Ddeddf Teithio Llesol a ffrwd gyllid refeniw ar gyfer newid ymddygiad.

**Gofyniad 2:** Creu cronfa gyfalaf ar wahân o £20m bob blwyddyn ar gyfer datblygu a gwella'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (RhBC) i sicrhau ei fod yn gwbl hygyrch i bawb.

**Gofyniad 3:** Sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghymru fynediad at feic, a hyfforddiant beicio am ddim.

**Gofyniad 4:** Sefydlu rhaglen ar gyfer Strydoedd Ysgol wedi'i ymgorffori mewn cymdogaethau sy'n galluogi plant i deithio'n ôl ac ymlaen i'r ysgol yn annibynnol.

**Gofyniad 5:** Helpu awdurdodau lleol i greu trefi a dinasoedd sy'n rhoi pobl yn gyntaf trwy wneud cymdogaethau 20 munud yn egwyddor ganolog mewn cynllunio lleol, polisïau trafnidiaeth, iechyd ac economaidd.

**Gofyniad 6:** Cymhwyso'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy i holl benderfyniadau polisi a buddsoddiad trafnidiaeth a chynllunio i sicrhau bod Cymru yn blaenoriaethu pobl a'u gwasanaethau mynediad, gan leihau dibyniaeth ar geir ar yr un pryd.

**Gofyniad 7:** Blaenoriaethu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy trwy integreiddio cerdded a beicio yn llawn gyda'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus ehangach, gan sicrhau ei fod yn gwasanaethu pob defnyddiwr yn deg.

**Gofyniad 8:** Sicrhau bod terfynau cyflymder 20mya yn cael eu rhoi ar waith erbyn 2023 fel terfyn cyflymder diofyn ym mhob ardal adeiledig a gwahardd parcio ar y palmant ledled Cymru.

**Gofyniad 9:** Deddfu ar gyfer Deddf Aer Glân yn nhymor cyntaf y llywodraeth.






**Gofyniad 10:** Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i sefydlu Rhaglen Lonydd Gleision Genedlaethol er mwyn darparu gwell mynediad at natur i bawb ledled Cymru.

**Gofyniad 11:** Gwella amrywiaeth y gynrychiolaeth ar y Bwrdd Teithio Llesol a chodi statws y bwrdd i Gomisiwn sy'n gallu dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Gofyniad 12:** Gosod targedau heriol ar gyfer teithio llesol a chynnal Arolwg Trafnidiaeth Cenedlaethol o ansawdd uchel bob blwyddyn i werthuso llwyddiant.



# Buddsoddi mewn teithio diogel ac iach

> Gyda'r cyfnodau atal a welsom fwy nag unwaith eleni, daeth cerdded a beicio i chwarae rhan allweddol ym mywydau pobl, naill ai fel eu hymarfer corff dyddiol, neu fel ffordd o deithio.

Daeth yn amlwg, bod lefelau is o draffig ar ein ffyrdd yn dod law yn llaw â phobl yn teimlo'n llawer mwy hyderus i gerdded a beicio o le i le ac o gwmpas eu cymdogaethau, eu trefi a'u dinasoedd.

Dylai ymateb y llywodraeth i'r cynnydd sydyn yn nifer y bobl sy'n cerdded a beicio yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud fod yn sbardun i lywio'r ffordd yr ydym yn symud ac yn byw o hyn ymlaen. Bydd gan deithio llesol ran allweddol i'w chwarae wrth gael trefi a dinasoedd i symud yn ddiogel ar wahanol gamau o'r adferiad o'r argyfwng presennol a thu hwnt.

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gadarnhau'r newidiadau a welsom yn ymddygiad cerdded a beicio pobl trwy fuddsoddi ymhellach mewn teithio llesol, gan sicrhau gwell integreiddiad o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (RhBC) i wella cysylltedd rhwng trefi. Mae hyn yn galw am ffrwd ariannu bwrpasol i gefnogi'r bobl a'r grwpiau hynny a allai fod yn llai hyderus wrth newid eu hymddygiad.

Dylid hefyd gwella'r RhBC i sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio bygi/pram, a phobl sy'n defnyddio cadeiriau olwynion neu feiciau wedi'u haddasu.

**Gofyniad 1:** Neilltuo o leiaf 10% o gyfanswm y gyllideb drafnidiaeth ar gyfer teithio llesol, gan gynnwys darpariaeth i awdurdodau lleol gael eu harfogi i gyflawni'r Ddeddf Teithio Llesol a ffrwd gyllid refeniw ar gyfer newid ymddygiad.

**Gofyniad 2:** Creu cronfa gyfalaf ar wahân o £20m bob blwyddyn ar gyfer datblygu a gwella'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (RhBC) i sicrhau ei fod yn gwbl hygyrch i bawb.



# Ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol i gerdded a beicio

Mae'r dystiolaeth yn glir; mae cau ffyrdd i geir er mwyn creu lle ar gyfer cerdded, beicio neu chwarae ar y stryd yn fanteisiol i iechyd a diogelwch pobl. Golyga hyn y gellid, ac y dylid, gwneud y mannau y mae plant yn ymgasglu ynddynt ar eu taith i'r ysgol yn ddiogelach ac yn lanach.

Yn anffodus, gyda phlant yn dychwelyd i'r ysgol ar ddechrau'r tymor newydd ym mis Medi, gwelsom amseroedd gollwng a chasglu prysur yn dychwelyd, gyda thagfeydd a segura mewn moduron yn herio diogelwch a glendid ein cymdogaethau ac yn effeithio ar iechyd ein plant.

Mae Sustrans Cymru am weld strydoedd o amgylch ysgolion yn cael eu trawsnewid a chefnogaeth i addysg plant fel bod pob plentyn yn gallu cerdded, beicio neu sgwtera i'r ysgol yn ddiogel. Dylai plant gael cyfle i fod yn berchen ar feic, dysgu sut i'w reidio a chael cyfle i'w ddefnyddio'n ddiogel ar eu ffordd i'r ysgol.

Bydd cael gwared â thagfeydd o ffyrdd y tu allan i ysgolion yn creu strydoedd mwy diogel, yn cadw ysgyfaint plant yn ddiogel rhag llygredd aer niweidiol, yn ogystal â helpu i ymgorffori ymarfer corff yn eu harferion dyddiol. Mae mesurau Strydoedd Ysgol – cau strydoedd o amgylch ysgolion ar amseroedd gollwng a chasglu - nid yn unig yn caniatáu hyn, ond gallant hefyd ostwng y pwysau ar drafnidiaeth ysgol a rennir fel bysiau ysgol.

**Gofyniad 3:** Sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghymru fynediad at feic, a hyfforddiant beicio am ddim.

**Gofyniad 4:** Sefydlu rhaglen ar gyfer Strydoedd Ysgol wedi'i ymgorffori mewn cymdogaethau sy'n galluogi plant i deithio'n ôl ac ymlaen i'r ysgol yn annibynnol.



# Creu Cymru o gymdogaethau 20 munud

Ein diffiniad o gymdogaeth 20 munud yw un sy'n caniatáu i breswylwyr gwrdd â'r rhan fwyaf o'u hanghenion o fewn taith 20 munud ar droed.

Mae'r ffordd yr ydym wedi adeiladu datblygiadau tai dros y ddegawd ddiwethaf wedi canolbwyntio ar anghenion y car, ar draul darparu'r swyddi a'r gwasanaethau lleol y mae eu hangen ar gymuned i ffynnu.

Fe'm gorfodwyd gan y gwahanol gyfnodau atal yn 2020 inni ad-drefnu ein bywydau yn llawer agosach at adref. Fe wnaeth y newid syfrdanol a sydyn hwn yn ein ffordd o fyw, gweithio a theithio dynnu sylw at bwysigrwydd cael rhai pethau fel manwerthu bwyd, addysg, gwasanaethau iechyd a mannau gwyrdd yn agos at ein cartrefi. Dangosodd hefyd nad oes gan bawb fynediad cyfartal at y pethau hynny, yn enwedig pan nad yw ceir preifat yn opsiwn.

Dylai dull wedi'i seilio ar gymdogaethau 20 munud helpu i wasgaru buddsoddiadau, swyddi a gwasanaethau yn ehangach ar draws tref neu ddinas yn hytrach na chanolbwyntio ar ganol y dref yn unig. Byddai hyn yn helpu i greu swyddi a gwasanaethau lleol, a dylai flaenoriaethu ardaloedd lle mae cysylltiadau'n wael ar hyn o bryd.

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i sicrhau bod pobl yn dod yn gyntaf ym muddsoddiadau a phenderfyniadau'r dyfodol. Dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y ffordd yr ydym yn adeiladu cartrefi newydd, yn cynllunio isadeiledd newydd ac yn trefnu ein heconomi.

Dylid defnyddio'r cysyniad o gymdogaethau 20 munud i alinio cynllunio gofodol yn well (h.y. yr hyn sydd mewn ardal) gyda chynllunio trafnidiaeth (darpariaeth isadeiledd trafnidiaeth), i gynnig cyfleoedd amlddefnydd a bod yn gymhelliad i bobl gerdded. Dylid ei gwneud yn ofynnol i adeiladwyr cartrefi newydd orffen yr holl isadeiledd ar ddechrau'r prosiect, fel bod cynaliadwyedd wedi'i osod o'r dechrau un.

## Gofyniad 5:

Helpu awdurdodau lleol i greu trefi a dinasoedd sy'n rhoi pobl yn gyntaf trwy wneud cymdogaethau 20 munud yn egwyddor ganolog mewn cynllunio lleol, polisïau trafnidiaeth, iechyd ac economaidd.

## Gofyniad 6:

Cymhwyso'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy i holl benderfyniadau polisi a buddsoddiad trafnidiaeth a chynllunio i sicrhau bod Cymru yn blaenoriaethu pobl a'u gwasanaethau mynediad, gan leihau dibyniaeth ar geir ar yr un pryd.



# Trafnidiaeth i bawb

> Mae effeithiau iechyd ac economaidd y pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar leiafrifoedd ethnig, pobl ag anableddau a phobl ar lefelau incwm is. Dyma'r bobl sydd eisoes yn dioddef yn anghymesur oherwydd llygredd aer, effeithiau newid yn yr hinsawdd, mynediad gwael i fannau gwyrdd ac opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy.

Mae Sustrans Cymru eisiau gweld Llywodraeth nesaf Cymru yn rhoi cyfle mwy teg i bawb wella o'r argyfwng hwn. Dyma gyfle i wneud pethau'n wahanol a pharatoi ar gyfer dyfodol lle mae gan bawb fynediad at yr hyn sydd ei angen arnynt i fyw'n dda a ffynnu.

Dyma pam rydyn ni am weld blaenoriaeth yn cael ei roi i fynediad at isadeiledd cynaliadwy a deddfwriaeth i wella ansawdd ein haer a'n hiechyd yn cael ei greu.
Dylai integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn effeithiol hefyd alluogi pobl i deithio milltir gyntaf ac olaf eu taith ar feic neu ar droed.

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru hefyd wneud amgylchedd y ffyrdd yn llai bygythiol a darparu isadeiledd o ansawdd uchel ar gyfer cerdded a beicio, fel bod pob math o ddefnyddwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gyffyrddus, nid y rhai mwyaf hyderus yn unig. Dylai hyn gynnwys cyfyngu'r terfynau cyflymder mewn ardaloedd adeiledig i 20mya a chael gwared ar flerwch ar ein strydoedd trwy wahardd parcio ar y palmant.

## Gofyniad 7:

Blaenoriaethu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy trwy integreiddio cerdded a beicio yn llawn gyda'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus ehangach, gan sicrhau ei fod yn gwasanaethu pob defnyddiwr yn deg.

## Gofyniad 8:

Sicrhau bod terfynau cyflymder 20mya yn cael eu rhoi ar waith erbyn 2023 fel terfyn cyflymder diofyn ym mhob ardal adeiledig a gwahardd parcio ar y palmant ledled Cymru.

## Gofyniad 9:

Deddfu ar gyfer Deddf Aer Glân yn nhymor cyntaf y llywodraeth.



# Mynediad at natur

Mae tystiolaeth wedi awgrymu ers tro byd fod y mynediad sydd gennym at fannau gwyrdd yn plethu'n agos â'n lles corfforol a meddyliol, a bod mynediad gwael yn lledu'r bwlch mewn canlyniadau iechyd rhwng y cyfoethog a'r tlawd. Mae COVID a'r cyfnodau atal a welsom fwy nag unwaith wedi hoelio sylw personol pawb ar werth cael lleoedd naturiol o safon yn agos, ond hefyd mor wahanol ac anghyfartal yw'r mynediad hwn o rhwng un dinesydd a'r llall.

Mae gallu mynd am dro bach o'r drws ffrynt i gael hoe fach, neu fynd â'r plant allan yn hawdd ar daith feic ar ôl diwrnod ysgol yn llawer haws i rai pobl nag eraill. Mae ymchwil wedi dangos mai dim ond 57% o oedolion ym Mhrydain Fawr sy'n byw o fewn pum munud ar droed i fan gwyrdd, ac mae'r ffigur hwn yn gostwng hyd yn oed yn is i bobl ar incwm is neu grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Mae angen inni greu amgylchedd lle mae pawb yng Nghymru yn sicr o gael mynediad at fannau gwyrdd o ansawdd uchel o fewn pellter cerdded.

## Gofyniad 10:

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i sefydlu Rhaglen Lonydd Gleision Genedlaethol er mwyn darparu gwell mynediad at natur i bawb ledled Cymru

Dylid cyflawni hyn mewn partneriaeth a dylid anelu at:

- Ehangu coridorau gwyrdd o fewn a rhwng ein trefi a'n dinasoedd, megis Llwybrau'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol,
- Gwella mynediad i fannau gwyrdd a glas o safon mewn ardaloedd trefol trwy fesurau megis ail-leoli safleoedd ac adeiladau diffaith, plannu coed a darparu seddi ar hyd glannau afonydd. Byddai hyn yn sicrhau nad oes unrhyw un yng Nghymru yn fwy na 20 munud o daith ar droed i'r awyr agored a gartref drachefn,
- Annog mesurau i gynyddu bioamrywiaeth trwy bolisïau cynllunio, gan gynnwys Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy.



# Cyflawni llwyddiant

> Yn ystod tymor y Cynulliad hwn, mae nifer y plant a'r oedolion sy'n teithio'n llesol wedi cynyddu ar ôl lleihau'n gynharach yn y ddegawd.

Mae Sustrans yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ddangos arweinyddiaeth feiddgar i sicrhau bod y newid hwn yn ymddygiad pobl yn cael ei harneisio wrth inni ddod allan o'r argyfwng hwn, a bod darpariaeth polisi yn adlewyrchu'r uchelgais.

Er mwyn cyflawni gweledigaeth Sustrans Cymru a chreu **Cymru Yfory, i Bawb**, yr ydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Gymru nid yn unig i godi statws y Bwrdd Teithio Llesol i Gomisiwn ag adnoddau da i'w dal yn atebol. Rydym hefyd yn disgwyl i'r Llywodraeth wella amrywiaeth y gynrychiolaeth ar y bwrdd, gan sicrhau bod atebolrwydd yn mynd trwy lens cydraddoldeb ar gyfer pob math o ddefnyddwyr.

Yn olaf, dylid rhoi argymhellion yr adolygiad o'r Ddeddf Teithio Llesol ar waith fel blaenoriaeth. Er mwyn gwerthuso llwyddiant dylid gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer newid moddol, ynghyd ag Arolwg Trafnidiaeth Cenedlaethol blynyddol o safon uchel.

## Gofyniad 11:

Gwella amrywiaeth y gynrychiolaeth ar y Bwrdd Teithio Llesol a chodi statws y bwrdd i Gomisiwn sy'n gallu dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Gofyniad 12:

Gosod targedau heriol ar gyfer teithio llesol a chynnal Arolwg Trafnidiaeth Cenedlaethol o ansawdd uchel bob blwyddyn i werthuso llwyddiant.




Yn ystod y cyfnod cloi cyntaf yng ngwanwyn 2020, cerdded oedd dewis 57% o Gymry fel eu hoff ffordd a'r mwyaf hygyrch i gadw'n egnïol.

# Amdanom ni

Sustrans yw'r elusen sy'n ei gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio.

Rydym yn beirianwyr, yn addysgwyr, yn arbenigwyr ac yn eiriolwyr. Rydym yn cysylltu pobl a llefydd, yn creu cymunedau byw, yn trawsnewid y daith i'r ysgol ac yn hwyluso taith hapusach ac iachach i'r gwaith.

Mae Sustrans yn gweithio mewn partneriaeth, yn dod â phobl ynghyd i sicrhau'r atebion iawn. Rydym yn cadarnhau'r achos o blaid cerdded a beicio drwy ddefnyddio tystiolaeth gref a dangos yr hyn sydd yn bosibl.

Mae'n gwreiddiau yn y gymuned a chredwn fod cefnogaeth gwerin gwlad ynghyd ag arweiniad gwleidyddol yn gwir newid pethau, a hynny'n fuan.

Ymunwch â ni ar ein siwrne. www.sustrans.org.uk

# Cysylltwch â ni

**Sustrans**
**123 Stryd Bute**
**Caerdydd CF10 5AE**

**029 2065 0602**
**sustranscymru@sustrans.org.uk**

**Dilynwch ni:**

Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU Rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban)

© Sustrans Ionawr 2020

YMUNWCH Â'R MUDIAD

sustrans

JOIN THE MOVEMENT